**Cyfarfod Llawn 2002 - 2003 (28)**

**Dydd Mercher, 6 Tachwedd 2002**

# AGENDA

**Bydd y Sesiwn yn dechrau am 2.00pm**

**Eitem 1**
**Cwestiynau i Jenny Randerson, y Gweinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Gymraeg**
Cliciwch yma i weld y cwestiynau.

**Eitem 2**
**Cwestiynau i Mike German, Dirprwy Brif Weinidog Cymru a'r Gweinidog dros Ddatblygu Gwledig a Chymru Dramor**
Cliciwch yma i weld y cwestiynau.

**Eitem 3**
**Cwestiynau i Carwyn Jones, y Gweinidog dros Lywodraeth Agored**
Cliciwch yma i weld y cwestiynau.

**Eitem 4**
**Cynnig Cyfansawdd**
***NDM1200 -*** *Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol*, gan weithredu o dan Reol Sefydlog 22.25:

1. Yn cymeradwyo:

Rheoliadau Ffioedd Ymchwiliadau (Swm Dyddiol Safonol) (Cymru) 2002, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 15 Hydref 2002.

2. Yn ystyried:

Adroddiad y Pwyllgor Deddfau, nad yw wedi nodi unrhyw faterion sy'n destun pryder yn y gorchymyn drafft Rheoliadau Ffioedd Ymchwiliadau (Swm Dyddiol Safonol) (Cymru) 2002, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 29 Hydref 2002;

Cliciwch yma i weld y Rheoliadau drafft.
Cliciwch yma i weld Adroddiad y Pwyllgor Deddfau.

3. Yn cymeradwyo:

Rheoliadau Deunyddiau ac Eitemau Plastig mewn Cysylltiad â Bwyd (Diwygio) (Cymru 15 2002, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 15 Hydref 2002.

4. Yn ystyried:

Adroddiad y Pwyllgor Deddfau, nad yw wedi nodi unrhyw faterion sy'n destun pryder yn y gorchymyn drafft Rheoliadau Halogion mewn Bwyd (Cymru) 2002, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 29 Hydref 2002;

b) y Memorandwm Cywiriadau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 29 Hydref 2002;

c) yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 15 Hydref 2002.

Cliciwch yma i weld y Rheoliadau drafft.
Cliciwch yma i weld Adroddiad y Pwyllgor Deddfau.
Cliciwch yma i weld y Memorandwm Cywiriadau.
Cliciwch yma i weld yr Arfarniad Rheoliadol - *Ar gael yn Saesneg yn unig.*

**Eitem 5**
**Cynnig i gymeradwyo Cyllideb Derfynol y Cynulliad**
***NDM1201 -*** *Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol*, yn unol â Rheol Sefydlog 19.3, yn mabwysiadu'r gyllideb derfynol ar gyfer y blynyddoedd ariannol 2003-2004, 2004-2005 a 2005-2006, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ddydd Mawrth, 29 Hydref gan Edwina Hart, y Gweinidog dros Gyllid.

Cliciwch yma i weld yr adroddiad ar y gyllideb - *Ni fydd y ddogfen hon ar gael ar We'r Siambr.*

**Eitem 6**
**Dadl a enwebwyd gan Geraint Davies yn unol â Rheol Sefydlog 29**
***NDM1167 -*** *Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:*

1. Yn cyfarwyddo'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth i ddwyn ymlaen is-ddeddfwriaeth ddrafft o dan Adran 87(1)(c) o Ddeddf yr Amgylchedd 1995 i wneud darpariaeth ar gyfer mesur a nodweddu'r gollyngiadau o nwyon tirlenwi sy'n digwydd mewn cymunedau gerllaw safleoedd tirlenwi.

2. Yn nodi y gellir, trwy hyn, asesu'r effeithiau o fod mewn cysylltiad hirdymor â gollyngiadau o safleoedd tirlenwi.

Cliciwch yma i weld y Dadansoddiad Cost a Budd.

*Dalier Sylw - Gosodwyd y Dadansoddiad Cost a Budd ar gyfer yr isddeddfwriaeth hon ar 30 Hydref 2002 a gellir dod o hyd iddo ar y Fewnrwyd a'r Rhyngrwyd (Saesneg yn unig)*

***Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:***
*Yn unol â’r canllawiau diwygiedig ar Grwpio, Dewis a Gwrthod Gwelliannau, mae’r Llywydd wedi penderfynu ym mha drefn y dylid eu cymryd ac mae wedi penderfynu grwpio’r gwelliannau fel a ganlyn at ddibenion trafodaeth. Bydd y pleidleisiau’n cael eu cymryd yn unigol:*

*(1)*
*(2)+(3)*

**Gwelliant 1 - Geraint Davies (Rhondda):**
Dileu popeth ar ôl 'Cynulliad Cenedlaethol Cymru' a rhoi yn ei le:

1. Yn cyfarwyddo'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth i ddwyn ymlaen is-ddeddfwriaeth ddrafft o dan Adran 87(1)(c) o Ddeddf yr Amgylchedd 1995 i wneud darpariaeth ar gyfer mesur a nodweddu'r gollyngiadau o nwyon tirlenwi, gan gynnwys gollyngiadau o ffagliadau tirlenwi sy'n digwydd mewn cymunedau gerllaw safleoedd tirlenwi.

2. Yn nodi y bydd hyn yn rhan o astudiaeth iechyd y cyhoedd i asesu effeithiau bod mewn cysylltiad hirdymor â gollyngiadau o safleoedd tirlenwi.

**Gwelliant 2 - Jonathan Morgan (Canol De Cymru):**
Ym mhwynt 1 dileu popeth ar ôl ‘tirlenwi’

**Gwelliant 3 - Jonathan Morgan (Canol De Cymru):**
Ym mhwynt 2 rhoi’r canlynol ar ôl ‘safleoedd’:
‘yn arwain at welliant yn y safonau ansawdd aer.’

**Eitem 7**
**Dadl Fer: *NDM1199* Janet Davies (Gorllewin De Cymru); Ynni Niwclear - Ein Hunig Ddewis yn y Dyfodol?**

**Bydd y cyfarfod yn dod i ben am 5.30pm**

******************

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am**

**2.00pm ddydd Mawrth, 12 Tachwedd 2002**

**E P Silk**

**Clerc y Cynulliad**